MID 02-99(p.2)

Atodiad A

Bae Caerdydd / Cardiff Bay

Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

PWYLLGOR RHANBARTH Y CANOLBARTH

Annwyl

Cost darparu Gwasanaethau Iechyd mewn Ardaloedd Gwledig

Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu y bydd yn ei gyfarfod nesaf ar ddydd Gwener 1af Hydref 1999 yn ystyried cost darparu gwasanaethau iechyd mewn ardaloedd gwledig gan ganolbwyntio ar ranbarth y Canolbarth. Gweler yn amgaeedig y cyfeiriad o'r Fewnrwyd at Bwyllgor y Canolbarth sy'n cynnwys gwybodaeth am ei aelodau a'i ddalgych.

Mae'r Pwyllgor yn dymuno gwahodd eich corff i gyflwyno gwybodaeth a sylwadau ynghylch cost darparu gwasanaethau iechyd mewn ardaloedd gwledig. Mae'r Pwyllgor yn arbennig o awyddus i ystyried y ddadl bod cost darparu gwasanaethau iechyd mewn adaloedd gwledig yn uwch nag mewn ardaloedd trefol ac i weld a oes tystiolaeth fesuradwy i gefnogi'r haeriad hwnnw. Wrth baratoi'ch sylwadau, dylech gadw'r

pwynt yma mewn cof a chynnwys gwybodaeth ffeithiol lle bo hynny'n bosib.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymgynghori a'r Pwyllgor a bydd y Pwyllgor ar ol ystyried y sylwadau a fydd wedi dod i law yn cynnig ei gyngor i Bwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad Cenedlaethol. Yn y modd hwn, gall y Pwyllgor Iechyd a Gwasanathau Cymdeithasol ystyried y pynciau llosg sy'n wynebu'r Canolbarth wrth ystyried iechyd ar draws Cymru.

Amgaeir canllawiau ynghylch fformat y papurau a gyflwynir i'r Pwyllgor. Cofiwch, bydd yr holl bapurau a gyflwynir i'r Pwyllgor yn cael eu cyhoeddi ar y Fewnrwyd a byddant ar gael i'r cyhoedd. Os hoffech gadw unrhyw fater o lygaid y cyhoedd, bydd gofyn ichi drafod hynny gyda'r Clerc.

Amgaeir agenda drafft cyfarfod 1 Hydref er gwybodaeth. **Dylai'r holl sylwadau ddod i law'r Clerc erbyn Gwener, 10ed Medi fan hwyraf.**

Os hoffech drafod unrhyw fater sy'n codi o gynnwys y llythyr hwn, croeso ichi gysylltu a mi unrhyw bryd ar y rhif ar waelod y lythyr.

Yn gywir,

Delyth Thomas

Clerc y Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth

CORFF WEDI YMATEB

A . Cynghoriau Iechyd Cymuned

1. Brecknock/Radnor	Ie
2. Ceredigion	Nac ydyw
3. Llanelli/Dinefwr	Nac ydyw
4. Meirionedd	Nac ydyw
5. Montgomeryshire	Nac ydyw

B Ymddiriedolaethau NHS a Awdurdodau Iechyd

1. Ceredigion & Mid Wales Trust	Ie
2. North West Wales Trust	Ie
3. Powys Healthcare Trust	Ie
4. Welsh Ambulance Service Trust	Ie
5. Dyfed Powys Health Authority	
6. North Wales Health Authority	Ie

C Cyrff

1. British Dental Association	Ie
2. British Medical Association	Nac ydyw
3. British Orthoptic Society	Nac ydyw
4. Ceredigion Local Health Group	Ie

5. Institute of Rural Health	Ie
6. Mid & West Wales Regional Office	Nac ydyw
7. Powys Association of Voluntary Orgsanisations	Nac ydyw
8. Powys Local Health Group	Ie
9. Welsh Central Pharmaceutical Committee	Nac ydyw